PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer


PRIS 75c | Rhif 411 | Medi 2018



Swydd newydd i Manon t.16



Ennill gwobr t.15



t.11 Sioe Penrhyn-coch

# Gwobrau'r Pïod

Daeth tyrfa dda ynghyd yng Ngwesty'r Hafod, Pontarfynach, fis Mehefin, ar gyfer cinio blynyddol Clwb Pêl-droed Bow Street. Bu'n dymor llwyddiannus iawn i'r clwb wrth i'r tîm cyntaf gipio cwpan Cynghrair Spar y Canolbarth, a'r ail dîm yn ennill Pencampwriaeth Cynghrair Cambrian Tyres a Chwpan Len a Julia Newman. Diolchodd Wyn Lewis, y cadeirydd, i bawb fu'n ymwneud â'r clwb drwy gydol y tymor, gan nodi i'r timau i gyd gael cefnogaeth ragorol.

Cyflwynwyd y gwborau i'r tîm cyntaf gan y rheolwyr Barry Williams, Richard Lucas a Dylan James:

Chwaraewr y Chwaraewyr: Tomos Evans
Chwaraewr y Cefnogwyr: Tomos Evans
Prif sgorwyr: Tomos Evans & Mark Gornall
Chwaraewr y Rheolwyr: Garmon Nutting
Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn: Tomos Evans
Y chwaraewr i ddangos y datblygiad mwyaf: Rhys Evans

Y rheolwyr Rhodri Jones a Leighton Reynolds gyflwynodd y gwobrau i'r ail dîm:

Chwaraewr y Rheolwyr: Osian Rees Jones
Chwaraewr y Flwyddyn: Stephen Harrison
Prif sgoriwr: Shaun Jones

A Steffan Richards, rheolwr y tîm dan 19 oed, gyflwynodd y gwobrau canlynol:

Chwaraewr y Rheolwyr: Gethin Williams
Chwaraewr y Flwyddyn: Dion Davies
Prif sgoriwr: Ben Davies

Cyflwynwyd gwobr arbennig i Ann Williams am ei chefnogaeth gyson ac am gwblhau tasgau angenrheidiol, gan gynnwys golchi cit y tîm! Wedi i'r tlysau a'r gwobrau gael eu cyflwyno, yr Arglwydd Elystan-Morgan ddaeth â'r noson i ben ag araith galonogol, yn canmol y clwb ar ei dymor llwyddiannus, ac am gyfraniad amhrisisiadwy'r clwb i'r gymuned leol.



Ben Davies a Justin Manley



Tom Evans, Mark Gornall a Dylan Roberts



Tom Evans gyda'r rheolwyr




Shaun Jones a Dylan Roberts

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Hydref. Deunydd i law: Hydref 5 Dyddiad cyhoeddi: Hydref 17**

**MEDI 19** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Gruffudd Owen, bardd Cadair 18 yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**MEDI 22** Bore Sadwrn Bore Coffi Mwya'r Byd er budd Cymorth Canser Macmillan. Galwch fewn am baned a chacen, croeso i bawb! yn Neuadd Rhydypennau 10-12

**MEDI 23** Bore Sul Taith gerdded gyda Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn ardal Pumlumon dan arweiniad Angharad Fychan am 11.00. Cyfarfod ym maes parcio argae Nant-y-moch. Gweler t.19

**MEDI 23** Prynhawn Sul Cyngerdd i ddathlu rhyddhau ei CD newydd, gan y gitarydd proffesiynol Rhisiart Arwel. Bydd yn perfformio darnau poblogaidd ar gyfer y gitâr o Ewrop ac o Dde America, gan gynnwys cyfansoddiadau gan Bach, Granados, Piazzolla, Satie, Fleury, Brouwer ac Albeniz. Yn Amgueddfa Ceredigion; drysau'n agor am 3yp. Tocynnau £10/£5

**MEDI 29** Nos Sadwrn John ac Alun yn dathlu 30 mlynedd o ganu yng nghwmni Gethin Fôn a Glesni Fflur yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00 Mynediad trwy docyn £10 o'r Gwesty neu gan Megan 612768 Holl elw'r noson tuag at waith Hospis yn y Cartref Aberystwyth a'r cylch

**HYDREF 3** Nos Fercher Cwrdd diolchgarwch Horeb am 7.00. Sgwrs gan Llinos Penfold, Mynachlog-ddu am ei thaith i Nepal. Croeso i bawb.

**HYDREF 10** Nos Fercher Noson goffa T. Llew Jones. Siaradwr gwadd: Y Prifardd Ceri Wyn Jones. Perfformiad aml-gyfrwng gan gwmni actorion Theatr Felin-fach yn Llyfrgell Gyhoeddus Aberystwyth am 7.30. Mynediad am ddim drwy docyn 01970 633717

**HYDREF 12** Nos Wener Eisteddfod hanner call a dwl papurau bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach am 7.30 Gweler t.18

**HYDREF 17** Nos Fercher Ruth Richards yn trafod Pantywennol a'i gwaith diweddaraf. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 23** Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno Dwyn i gof - drama olaf Meic Povey yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30.


GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Mehefin 2018:

**£25** (Rhif 139) Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau
**£15** (Rhif 232) .Llinos Evans, Dolwerdd, Dôl-y-bont
**£10** (Rhif 272) **Sally Powell**, Cartref, Capel Bangor

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aeldoau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mehefin 20.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Genau'r-glyn £200
Cylch Cinio Aberystwyth £100
Egryn Evans, Penrhyn-coch £3.00
Er cof am Mrs Sally Powell. £10

## DÔL-Y-BONT

**Gwella**
Ers i'r *Tincer* diwethaf ymddangos mae Sŵ Gerallt, Leri, a Phill Turner-Wright, Brynddderwen, wedi bod yn yr ysbyty ond da yw medru cofnodi fod y ddau bellach ar wella. Braf yw gweld y ddau o gwmpas y pentref unwaith eto.

**Priodas**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sophie ac Owain James, Glen Gyle ar eu priodas ddiwedd Gorffennaf.

## DOLAU

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i Glesni a Teleri Morgan, Pwll-glas, sydd wedi gwneud yn arbennig o dda yn eu arholiadau. Cafodd Glesni, yn Lefel A, 3 A* + 1A ac mae nawr yn edrych ymlaen i fynd i Brifysgol Lerpwl i astudio Milfeddygaeth. Yn TGAU cafodd Teleri 1A* a 10A.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy, mae yn amlwg ddyfodol disglair o'u blaen.

## 30 MLYNEDD YN OL



"Dathlu dau canmlwyddiant Horeb" yw y pennawd ar glawr Y Tincer Medi 1988. Dyma ddau lun o'r dathliad a dynnwyd gan Hugh Jones. 'Irfon Williams,John Ifor Jones (Cae Mawr), Hywel Davies ac Eirian Reynolds yn cymryd rhan ym mhasiant yr oedolion.'



'Adran y plant a gymerodd ran yn y dathliad'.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**
*Medi*
23 5.00 Bugail
30 5.00 Wyn Morris

*Hydref*
7 2.00 Bugail Cymun
14 10.00 Terry Edwards
21 5.00 Bugail
28 10.00 Adrian Williams

**Merched y Wawr Melindwr**
Dydd Sadwrn Mehefin 16 aeth 20 o'r aelodau ar y trip blynyddol. Roedd swyddogion eleni wedi trefnu i gael diwrnod yng nghartref y cogydd enwog Gareth Richards. Thema y dydd oedd Hyfrydwch a Harddwch yr Haf.

Wedi cyrraedd cafwyd paned a bisged ac yna arddangosfa coginio yng nghwmni hwyliog Gareth. Dangosodd sut i baratoi y picnic perffaith yn cynnwys cacen gaws, pate picnic a coronbleth ganol haf. Tra yn dangos sut i baratoi y rysetiau cafwyd sawl tip defnyddiol gan Gareth yn ogystal ac ambell i stori ddifyr.

Buan y daeth amser cinio ac yn rhan o'r fwydlen oedd rhai o'r bwydydd blasus oedd wedi eu paratoi i'r picnic perffaith.

Wedi cinio treuliwyd y prynhawn yn gwylio Gareth yn arddangos ei ddoniau yn trefnu blodau. Dangosodd sut i greu trefniant i'w roi ar ganol bwrdd, trefniant i'r Neuadd, trefniant mewn basged ac eraill; roedd yn defnyddio amrywiaeth o flodau ac yn gwneud i bopeth edrych mor hawdd.

Yn ddiweddglo i'r dydd cafwyd te a chacen pryd y cafodd yr aelodau gyfle i brynu tocyn raffl a siawns i ennill un o'r trefniadau blodau a hefyd cyfle i brynu cynnyrch Gareth yn wahanol jams a diodydd.

Cyn gadael diolchodd y llywydd i Gareth am ddiwrnod pleserus ac aeth pawb adref wedi cael llond bol o fwyd blasus a pump aelod lwcus wedi ennill trefniant o flodau.

Hoffai Lynne llywydd 2017/2018, ddiolch i Nia Davies yr ysgrifennydd a Llinos Evans y trysorydd am eu gwaith drwy y flwyddyn ac hefyd i'r holl aelodau am eu cefnogaeth.

Mae Merched y Wawr Melindwr yn cwrdd ar nos Fawrth cyntaf y mis a bydd y sesiwn nesaf yn dechrau nos Fawrth Medi 4ydd. Os hoffech ymuno a ni cysylltwch efo un o'r swyddogion neu un o'r aelodau.

Daeth y mwyafrif o'r aelodau i gyfarfod ymaelodi ar nos Fawrth 4ydd Medi. Croesawyd yn gynnes gan Delyth Davies, ein Llywydd eleni. Gyda hynny cyhoeddwyd rhaglen y flwyddyn gan dynnu sylw i'r ffaith bod Llinos Jones ysgrifenyddes eleni wedi gweithio yn galed i'w threfnu.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai cyn mynd ymlaen i ddarllen hysbysiadau o'r Mudiad- yn arbennig y penwythnos preswyl oedd ar fin cychwyn. Cyflwynodd Llinos Evans - trysorydd y ddwy flynedd ddiwethaf y fantolen am y flwyddyn 2017/18.

Erbyn hyn roedd yn amser i'r gŵr gwadd - Dr Hedd Piper - gymryd y llwyfan.

Cafodd ei eni a'i fagu yn ardal Aberystwyth. Penderfynodd ar ôl graddio ym Mhrif ysgol Abertawe i fod yn arbenigwr asgwrn cefn - sef Ceiropractydd gan fynychu Coleg Morganwg ym Mhontypridd. Gweithiodd yng Nghaer a Bangor, hefyd yn Llanidloes cyn dychwelyd adref a sefydlu busnes ei hun - sef Corff Ystwyth.

Daethpwyd i ail feddwl am driniaeth poen cefn yn y ddeng mlynedd diwethaf a nawr maent yn trin y corff a'r meddwl yn gyfan. Faint ohonom sydd wedi dioddef poen cefn? Y rhan fwyaf, mae'n debyg, oherwydd mae'r cefn yn dechrau darfod yn syth ei bod wedi datblygu yn ddeunaw oed fel rheol. Cael pawb i ddeall bod dim fath beth a stwythwr da na drwg oherwydd mae'r cefn wedi cynllunio i symud pob math o ffordd. Roedd hyn yn amlwg gyda symudiadau Napoleon (Boneparte) - enw da i ysgerbwd meddygol oedd ganddo.

Mae'n debyg bod 50% o'r boblogaeth yn dioddef poen cefn parhaol. Ei genhadaeth ef yw i wneud rhywbeth i leihau'r holl arian mae y Gwasanaeth Iechyd yn gwario, heb eisiau neu yn y ffordd anghywir. Canolbwyntio'r ffordd o fyw i leihau diodde 'stress' sydd eisiau.

Rhoddwyd digon i ni feddwl amdano cyn i Delyth ddiolch iddo am y pwnc diddorol sydd o ddiddordeb i ni gyd.

Roedd cymdeithasu dros baned a danteithion gwaith llaw Llinos a Delyth yn bleserus iawn.Diolchodd Beti Daniel i Heulwen Lewis am drefnu'r lluniaeth. Tynnwyd y raffl a enillwyd gan Ann Jenkins.

Hefyd rhaid cofio bod cyfarfod mis nesaf ar nos Fercher 3ydd Hydref pan fyddwn yn cwrdd am 7 o'r gloch yn Swyddfa Brigad Dân y dre.

**Yn eisiau - gohebydd**
Mae angen gohebydd yn ardal Capel Bangor – diolch i Aeronwy Lewis am gytuno i barhau hyd y Nadolig – cysylltwch â swyddogion y Tincer os ydych yn fodlon cynorthwyo i gaslu newyddion y pentref.

**Llwyddiant i saethwraig o Gapel Seion**
Llongyfarchiadau mawr i Siwan Burrell o Gapel Seion a fu'n cynrychioli Tîm Saethu Cymru ar ddechrau mis Awst. Mae Siwan yn wyres i Eirwen McAnulty, Capel Bangor. Dyma'r flwyddyn ddiwethaf



**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Hoffem ddiolch o waelod calon ar ran pawb yn y Cylch i Exchange Stores, Capel Bangor a'u cwsmeriaid am gasglu £275 tuag at y Cylch. Gwerthfawrogwn eich cyfraniad yn fawr! Diolch yn fawr!



i Siwan fynychu'r gystadleuaeth Ryngwladol Iau (categori o dan 21 oed), yng Nghanolfan Yr Arglwydd Roberts yn Bisley.

Buodd cystadlu brwd gan saethwyr o Dde Affrica, Ewrop a Gwledydd Prydain. Cafodd Siwan, cyn ddisgybl Ysgol Gyfun Penweddig, ag yn awr yn astudio ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, sgôr personol gorau yng nghystadleuaeth saethu 25m pistol aer a daeth i'r brig a chipio medal aur i Gymru. Aeth yn ei blaen i gipio'r ail fedal aur yng nghystadleuaeth 10m pistol aer. Bu llwyddiant Siwan yn gyfryngol i dîm merched Cymru wrth iddyn nhw ennill dwy fedal arian.

Mae llwyddiant Siwan yn adlewyrchu cefnogaeth a hyfforddiant ei hyfforddwr John Kelman o Gaerfyrddin a gwnaeth ei darganfod wrth ymarfer saethu i dîm treiathlon Clwb Merlod Gogerddan. Mae hi hefyd yn aelod anrhydeddus o Glwb Gwn a Phistol Aberystwyth, ac yn aelod of Ffederasiwn Saethu Targedi Gymru o dan reolaeth Alan Green yng Nghaerdydd. Hoffai Siwan ddiolch i bawb sydd wedi dylanwadi ar ei llwyddiant a gobeithio daw hi i'r brig yng Ngogledd Iwerddon ym mis Medi pan fydd hi'n mynychu cystadleuaeth ym Mhencampwriaethau Ffederasiwn Saethu'r Gymanwlad (Adran Ewropeaidd).

**Eglwys Dewi Sant**
Cynhelir gwasanaeth arbennig ag anifeiliad anwes am 2.30 dydd Sul 30 Medi.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Wynne ac Eleanor Jones,Tan-y-gaer, Wynne wedi colli ei dad yn ddiweddar. 'Rydym yn meddwl amdanoch.

**Pen blwydd**
Llongyfarchiadau calonnog a chyfarchion i Mrs Iris Richards, Brodawel ar ei phen blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi Iris, ymlaen i'r cant 'nawr. Beth yw'r gyfrinach o edrych mor ifanc dwedwch?


Hefyd mae Mrs Liz Collison, Dolcniw, a Mrs Barbara Hogger, Plas Melindwr, wedi dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Gadawn i chi i ddyfalu pa garreg filltir yw honno. Cyfarchion hwyr i'r ddwy ohonoch.

**Ysbyty**
Da yw clywed fod Mrs Marie Howells, Pencoed, yn well erbyn hyn, wedi bod yn yr ysbyty.

**Symud tŷ**
Mae Margaret Hayward, Gwelfor, wedi symud i Annwylfan, Comins-coch. Dymuniadau gorau a lwc dda, yn ei chartref newydd.

**Croeso**
Croeso i Christian Roberts ac Alice Woolley, gynt o Arwel, Capel Seion, deiliaid newydd 21 Stâd Pen-llwyn. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

# Anturiaethau Grace-Ella




Yn ddiweddar ymddangosodd Sharon Marie Jones o Gapel Bangor ar S4C i sôn am ei nofel gyntaf i blant oedd ar fin cael ei chyhoeddi pan wynebodd y teulu drasiedi a phrofedigaeth fawr ddwy flynedd a hanner yn ôl. Bellach mae'r nofel wedi'i chyhoeddi.

Nofel i blant rhwng 7-9 oed yw Grace-Ella: Spells for Beginners. Mae'r stori'n cychwyn ar y nawfed dydd o'r nawfed mis pan oedd Grace-Ella'n naw oed. Dyna pryd y daeth Mr Whiskins, y gath ddu trwy ddrws ei chartref a dweud wrthi ei bod yn wrach ac y byddai maes o law yn cael dysgu am gyfrinion hud a lledrith. Hi yw'r diweddaraf o deulu'r Bevins i fod yn wrach yn ôl Mr Whiskins!

Nid yw Grace-Ella'n serennu gyda'i gwaith ysgol ond mae bod yn wrach yn gyffrous iawn er nad yw'n waith hawdd bob tro! Mae'n gorfod dysgu y 'naw rheol aur' sydd yn Y Llyfr Rheolau ac arbrofi gyda hud a lledrith cyn y caiff fynychu gwersyll Cyngor y Gwrachod. A fydd ei ffrindiau gorau eisiau parhau i fod yn ffrindiau gyda hi? Tybed a fedr hi gadw trefn ar Amelia, bwli yr ysgol heb dorri rheol 2 o'r Naw Rheol Aur - peidiwch byth a defnyddio eich galluoedd hud i ddial ar berson.

Dyma stori fyrlymus sy'n llawn cyffro a hiwmor ac yn sicr o gadw sylw'r darllenydd. Gobeithio y gwelwn gyhoeddi yr ail gyfrol yn y gyfres cyn bo hir er mwyn i ni gael darllen mwy am hanes Grace-Ella a Mr Whiskins.

Mae'r awdur wedi paratoi taflen waith ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn seiliedig ar Grace-Ella: Spells for Beginners ac mae modd ei lawrlwytho o wefan Firefly.

Llongyfarchiadau mawr i'r awdur - melys, moes, mwy.

**Menna Lloyd Williams**



**Sioe Capel Bangor**
Testun cystadleuaeth ffotograff Y Tincer yn y sioe eleni oedd Cymeriad o'r Ardal ac i'r brig daeth y llun yma o Barry Jones, Y Felin, Capel Bangor. Er fod y llun yma wedi ei dynnu rhai blynyddoedd yn ôl braf oedd fod ei wyres Courtney wedi cystadlu oherwydd mae Barry yn wir gymeriad o'r ardal a phawb yn ei adnabod fel y torrwr beddau lleol. Trist yw nodi nad yw Barry yn yr iechyd gorau a ddim yn medru mynychu y sioe lle byddai yn cystadlu yn llwyddiannus gyda'i flodau a chynnyrch gardd. Rwyn siwr y byddai wedi mwynhau clywed y bobl yn hel atgofion amdano.

# Llyfr y Tri Aderyn





Roedd hi'n arllwys y glaw, un o'r diwrnodau hynny pan oedd hyd yn oed yr hen wragedd a'u ffyn wedi eu trechu. Dydd Sadwrn oedd hi ac mae hi'n dân ar fy nghroen i aros yn y tŷ yn gaeth i'r tywydd ar unrhyw ddiwrnod, yn enwedig ar ddydd Sadwrn. O dan warchod ymbarel a chot law dyma fentro cerdded i'r dref, rhyw hanner milltir i chwilio am bethau diangen fel papur dyddiol a bar o siocled ac i weld pwy arall oedd yn ddigon dwl i fod allan yn y fath dywydd. Llanymddyfri yw'r dref, tref yr hen Ficer Prichard a Williams Pantycelyn heb anghofio Twn Sion Cati oedd wrth ei fodd yn chwarae tricie ar siopwyr y dref hon ganrifoedd yn ôl. Penderfynais droi am adref, tua 'run pryd penderfynodd y gwynt godi ei lais a daeth y glaw i ganu deuawd ag e. Digon oedd digon, roeddwn i wedi blino cystadlu yn erbyn y ddau yma ac wrth i'r fellten gyntaf hollti'r awyr dyma droi mewn i siop hen bethau i gysgodi.

Mae rhai ohonoch o ardal Y Tincer yn siwr o fod yn cofio Taid, sef Maelgwyn Morris a fu'n weinidog ar gapel Pen-llwyn, Cwmrheidol ac Aberffrwd o 1933 i 1958. Brodor o Lanuwchllyn, bu ym mhrifysgol Aberystwyth cyn mynd i'r Rhyfel Mawr ac yna yn Weinidog gyda'r Methodistiaid. Roedd yn ddarllenwr brwd ac anamal iawn y byddai'n dod nôl o'r dref heb fod i Galloway's neu rhyw siop lyfrau ail law heb brynu llyfr. Yn ddiffael byddai yn torri ei enw a'r dyddiad ar ei lyfrau. Tyfodd ei lyfrgell yn gannoedd o lyfrau, llyfrau ar bob pwnc o dan haul o ddiwinyddiaeth i ddyfeisiadau, o arddio i astroniaeth. Wedi ymddeol bu'n byw yn Aberdyfi nes ei farwolaeth sydyn ym 1972. Chwalwyd ei lyfrgell.

Roedd y storm ar ei hanterth y tu allan a finnau yn crwydro rhwng yr antiques gan ffugio diddordeb. Celfi, lluniau, llestri, hen offer garddio ac yna mewn cornel silff gyda *Welsh Books* fel teitl iddi. Rhaid cyfaddef mae gyda fi ddiddordeb mewn *Welsh Books* felly dyma mynd ati i pori'r silffoedd. Rhesi o nofelau a chyfrolau barddoniaeth gan awduron cyfoes, llyfrau i blant ac ambell eiriadur oedd yno. Yna rhwng *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Sir Dinbych a'r Cyffiniau 2001* a *Prydau i Blesio Pawb Dudley Newbery* roedd yna gyfrol dipyn hŷn yn llechu. Aeth fy llaw ato'n syth roedd ei glawr yn wyrdd wedi ffadio ond roedd yr ysgrifen lliw aur yn ddigon eglur ar y meingefn, *Llyfr y Tri Aderyn, Morgan Llwyd*. Roedd copi o'r argraffiad mwyaf diweddar o'r clasur o'r ail ganrif ar bymtheg gyda fi. Agorais y clawr a'i gau yn sydyn. Mentrais eto, doedd dim amheuaeth y tro yma, dyna lle'r oedd hi, yr ysgrifen fân fain honno y darllenais droeon o'r blaen, *Maelgwyn Morris* a'r linell fechan arferol honno gyda'i chwrlin tynn yn tanlinellu'r enw. Fel cardi da dyw talu'r pris llawn ddim yn optiwn. Tynnais sylw'r gwerthwr at gyflwr y llyfr ac am y sgriblo ar ochr y tudalennau a chefais ostyngiad bach ar y pris. Byddwn wedi talu teirwaith y pris amdano gan mai sgribls Taid oedden nhw! Erbyn hyn roedd y storom wedi chwythu'i phlwc ac adre â fi a'r llyfr yn dynn yn fy llaw.

Mae'r hen lyfr wedi bod ar grwydr ers 1972. Bu mewn siop lyfrau ail law ym Mangor, yng Nghydweli, yn eiddo i sawl myfyriwr ac mewn llyfrgell ysgol. Bellach mae gartref gyda fi ac yma y bydd bellach. Gyda llaw, yr enw cynharaf ar y clawr yw T.I. Ellis Tachwedd 1917, a'i bris gwreiddiol oedd swllt.

## GOGINAN

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Dai a Carol Jones a'r teulu, Is y Coed (Cefnbangor) ar farwolaeth ei frawd Ceinion Jones o Benrhyn-coch.

**Dathliad**
Pen blwydd hapus i Ken Morris, Y Wern, a ddathlodd ei ben blwydd yn nawdeg ar Orffennaf 18.

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

GWASANAETH
**TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor 7 niwrnod
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Gorffennaf 19 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Aled Lewis yn y gadair. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sir a thri Chynghorydd Cymuned.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin fel rhai cywir. Adroddodd y clerc fod y Cyngor Sir wedi symud y car oedd wedi ei barcio yn anghyfreithlon ger Pont Rhiwarthen, ac wedi addo rhoi arwydd newydd i nodi y llwybr cyhoeddus ger mynedfa Fferm Maesbangor.

Roedd pedwar mater cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor Cymuned; sef Penlanolau, Capel Bangor – newid bychan i'r cynllun gwreiddiol; nid oedd gwyrthwynebiad. Roedd y tri mater arall yn ymwneud â datblygiad Pengeulan. Nid oedd gwrthwynebiad i gynlluniau A180662 a A180663, ond roedd gwrthwynebiad i ymgynghoriad A180664 ar sail materion amgylcheddol ac ennill rhagor o dir.

Roedd y clerc wedi derbyn y ddogfen ynglŷn â yswiriant Cyngor Cymuned Melindwr am y flwyddyn 2018/2019 gan gwmni Zurich, gofynwyd iddi i gysylltu efo'r cwmni ynglŷn â ychwanegu y meinciau newydd i'r polisi.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau Medi 20fed am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn,Capel Bangor.


**Walker's Dog Walkers**

Cerdded cŵn a gwarchod anifeiliaid.



**Bryn Walker**
Llety'r Ddwylan
Penbontrhydybeddau
Aberystwyth SY23 3EZ
01970 828066
07971942877
lletyr@btinternet.com

**John Phillips *Agor Cloriau – Atgofion Addysgwr*. Y Lolfa 208t. £9.99**




Mae hon yn gyfrol ddifyr iawn sy'n olrhain llwybr bywyd a gyrfa un a chwaraeodd rhan ganolog a phwysig yn hanes addysg Gymraeg yng ngorllewin Cymru.

Yn fab i löwr a anwyd a'i fagwyd yng Ngwauncaegurwen, ar y ffin rhwng cwm Tawe a chwm Aman, mae John Phillips yn sôn am ei blentyndod a'i lencyndod yn yr ardal lofaol hon. Gall hynny fod o ddiddordeb i'r sawl, fel finnau, sy'n dod o'r un ardal neu i rai nad ydynt yn gyfarwydd a'r cyfnod hwnnw, sef y 40 a 50-degau, neu am natur cymdeithas glos y pentrefi glofaol cyn iddynt ddiflannu gyda chau pob un bron o'r pyllau. Yn sicr fe ddaeth ag atgofion yn ôl i mi o'm magwraeth innau er fy mod ychydig yn iau na JP.

Ar ôl treulio ei ddyddiau coleg yma yn Aberystwyth dilynodd yrfa gymharol fer fel athro cyn cychwyn ar ei yrfa weinyddol yn y byd addysg. Yn berthnasol i ni yn ardal y *Tincer*, fe'i benodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Addysg yma yn Sir Aberteifi. Yn ystod y cyfnod yna sonia'r gyfrol am ddirywiad syfrdanol yn nifer a chanran o blant cynradd a siaradai'r iaith Gymraeg ar yr aelwyd ac yn enwedig felly yn ardaloedd mwyaf Cymreig yr hen Sir. Er enghraifft yn Nhregaron cwympodd y canran o 85% yn 1960 i 58% ugain mlynedd yn ddiweddarach. Mewn ymateb lluniodd y Cyngor Sir bolisi iaith oedd yn gryf o blaid sicrhau bod pob plentyn yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol gynradd. Aiff y gyfrol ymlaen i sôn am y dadlau ffyrnig o blaid ac yn erbyn mabwysiadu'r polisi hwnnw.

Ar hyd trywydd tebyg, adrodda John Phillips hanes sefydlu ysgol Penweddig gan daflu goleuni ar gymhlethdod y broses honno. Daeth y broses i fod oherwydd penderfyniad ar lefel genedlaethol i ddileu arholiad y 11+ a thrwy hynny newid rôl y ddwy ysgol uwchradd yn nhref Aberystwyth sef ysgol Ramadeg Ardwyn ac ysgol fodern Dinas. Rhydd y gyfrol olwg ar rôl cefnogwyr sefydlu ysgol ddwyieithog, sef, Penweddig, a rhai oedd o blaid sefydlu dim ond un ysgol uwchradd gydag adain Gymraeg a Saesneg o dan faner un ysgol ac un prifathro. Noda John Phillips rôl yr Arglwydd Elystan Morgan yn hyn oll gan nodi nad oedd yn gwrthwynebu addysg cyfrwng Gymraeg ond a oedd yn bleidiol iawn i sefydlu dim ond un ysgol. Agorwyd Penweddig yn 1973 o dan brifathrawiaeth Gerald Morgan.

Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974 sefydlwyd Sir Ddyfed. Golygodd hynny ad-drefnu mawr o ran gweinyddiaeth addysg ar draws Cymru gan gynnwys yr hen siroedd gorllewinol. Yn sgil hynny symudodd John Phillips i Gaerfyrddin i gymryd, yn gyntaf, swydd Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg ac, yna yn 1977, fe'i benodwyd yn Gyfarwyddwr ac fe gyflawnodd y swydd honno tan 1990. Yn ystod ei gyfnod fel Cyfarwyddwr Addysg Dyfed sefydlwyd pump ysgol uwchradd ddwyieithog yng Nghaerfydrdin, Llanelli, Cefneithin, Crymych a Llandysul. 'Doedd hynny ddim bob amser yn hawdd a dirwystr ac fe sonia am yr angen am ddycnwch a chadernid gwleidyddol i ddwyn y maen i'r wal.

Yng ngeiriau John Phillips, " Bu'r blynyddoedd olaf ym myd addysg yn rhai anodd dros ben.". Yn cychwyn gyda thoriadau llywodraeth Thatcher, penderfynodd John Phillips bod angen rhesymoli ysgolion cynradd. Ar yr un pryd gwelodd gyfle i 'gryfhau polisi iaith yr ysgolion'. O hynny deilliodd y drefn o gategoreiddio ysgolion. Yn rhan o hynny, sefydlwyd nifer o ysgolion Categori A o fewn yr ardaloedd mwyaf Cymreig gan wneud y Gymraeg yn brif gyfrwng dysgu. Dros y blynyddoedd cynt, symudodd llawer o deuluoedd di-Gymraeg i'r ardaloedd hynny ac roedd yna wrthwynebiad cryf i'r polisi. Ffurfiwyd y grŵp *Education First in Primary Schools*. Noda'r gyfrol yr ymladd a'r dadlau ffyrnig a ddilynodd ac a gyrhaeddodd mannau megis yr Uchel Lys. Ond, ar ddiwedd y dydd llwyddwyd i osod polisi Dyfed yn ei le ac, yn sgil ad-drefnu pellach llywodraeth leol yn 1996, fe'i mabwysiadwyd gan Geredigion, Caerfyrddin a Phenfro.

Yn 1990 penodwyd John Phillips yn Brif Weithredwr Dyfed ac mae'n sôn am ddyfroedd tawelach ei gyfnod yn y swydd honno cyn ymddeol a chymryd at nifer o ddyletswyddau pellach wedi hynny.

Ochr yn ochr a chroniclo troeon ei yrfa mae John Phillips yn olrhain hanes ei deulu o'i briodas â Bethan, y plant Catrin a Geraint a'u plant hwy. Erbyn hyn, yn drist, mae Bethan Phillips yn dioddef o dementia ac mewn cartref yn Llanymddyfri ac yn derbyn gofal arbennig yno.

Mwynheais ddarllen y gyfrol yn fawr iawn. Nid yn unig mae hi'n ddiddorol olrhain dyddiau fy mhlentyndod yng Nghwm Tawe ond hefyd y brwydro caled a fu i amddiffyn a cheisio cryfhau y Gymraeg yn ein cymunedau. Mae'r frwydr honno yn parhau.

**Arwel George**

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Colled**

Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth Nora Higgs, Abernant ar ôl cyfnod o salwch creulon. Daeth Nora a Clive i Aber-ffrwd tua deng mlynedd ar hugain yn ôl a bu y ddau yn hapus iawn yno. Mi roedd Nora wrth ei bodd allan yn yr awyr iach a gwelwyd hi a'i chŵn yn cerdded llwybrau'r ardal bron yn ddyddiol. Bu yn ffrind arbennig i'r ddiweddar Mair Stanley ac yn aml ar fore dydd Mawrth byddai y ddwy ynghyd â Nancy a Gwen yn mynd am dro gan orffen drwy gael cwpanaid a rhoi y byd yn ei le yng Ngaffi Nantyrarian!! Bu yn aelod ffyddlon o Urdd y Benywod ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mi roedd hi a Clive yn gwifoddoli gyda Rheilffordd Cwmrheidol yn gofalu am orsafoedd Nantyronnen ac Aber-ffrwd. Mi 'roedd yn derbyn y *Tincer* bob mis a gyda chymorth y diweddar Eirlys Davies Caehaidd 'roedd yn dysgu siarad Cymraeg trwy ei ddarllen. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Clive yn ei hiraeth.

**Brysiwch wella**

Dymuniadau gorau i Nancy Evans, Typoeth, ar ôl cael triniaeth ar ei phenglin; mae yn gwella yn foddhaol iawn. Cafodd Alice Briggs, Y Capel, hefyd lawdriniaeth ddechrau y gwyliau, nid yr amser gorau gyda tri o blant bach. Hyfryd yw ei gweld wedi gwella yn dda erbyn hyn.

**Tân**

Bu yr haf yma yn un rhyfedd iawn gan i dirlun y Cwm gael ei ddinistrio gan dân mawr ddiwedd Gorffennaf. Roedd yn frawychus.

Diolch i bawb am eu consyrn amdanom a diolch byth am wasnaeth y frigâd dân a'r hofrennydd a wnaeth achub y dydd. Gorfu i'r trên bach fod yn segur am bythefnos ac mi roedd yn braf iawn i glywed ei sŵn unwaith yn rhagor

Mae yna dipyn o newid yn y Cwm yr haf yma, teuluoedd newydd ym Mhlas Plwca, Rheidol View, a Penbontbren sydd yn dŷ haf erbyn hyn. Teuluoedd o ochr draw y ffin bob un!

**Digwyddiad**

Cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes nos Fercher Medi 26ain am 7 y.h. pryd y pregethir gan Dr.Rhidian Griffiths Aberystwyth.



## Colofn **BEN LAKE** AS

Ydych chi wedi clywed am ymgyrch WASPI?

Dyma ymgyrch bwysig dwi wedi bod yn ei gefnogi ers i mi gael fy ethol yn Aelod Seneddol llynedd. Mae'r ymgyrch yn mynd i'r afael â phwnc sy'n effeithio ar oddeutu 5,000 o fenywod yng Ngheredigion. Os ydych chi'n fenyw gafodd ei geni yn y 1950au, mae'n bosib iawn eich bod chi'n un o'r rheiny sydd wedi cael eu heffeithio.

Yn 1995 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol gynnydd graddol yn Oed Ymddeol Gwladol menywod o 60 i 65, ond ni roddwyd rhybudd digonol i'r sawl fyddai'n cael eu heffeithio. Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn datgan bod y Llywodraeth wedi aros tan 2009, h.y. 14 mlynedd ar ôl Deddf 1995, cyn ysgrifennu yn unigol at y menywod oedd yn mynd i gael eu heffeithio.

Ym mis Mawrth 2011 stopiodd y Llywodraeth ysgrifennu at fenywod oherwydd bod Llywodraeth y Glymblaid yn ystyried deddfwriaeth bellach. Dyma oedd dechrau Deddf Pensiynau 2011, a gododd yr oed ymddeol i 66. Dechreuodd y Llywodraeth ysgrifennu at y menywod fyddai'n cael eu heffeithio yn 2012, oedd yn rhoi ychydig iawn o rybudd ynghylch y newidiadau oedd ar y gorwel.

Prif ddadl ymgyrch WASPI yw'r diffyg rhybudd a gafodd menywod a anwyd yn y 1950au o'r newidiadau i'w pensiwn gwladol. Oherwydd y diffyg rhybudd digonol, dwi wedi dod ar draws nifer o fenywod dros y misoedd diwethaf sy'n wynebu dyfodol ariannol ansicr iawn. Roedd nifer o'r menywod hyn wedi bod yn cynllunio eu sefyllfa ariannol yn ofalus iawn wrth iddyn nhw agosáu at oed ymddeol, gan dderbyn yn ganiataol y bydden nhw'n derbyn pensiwn gwladol yn 60 mlwydd oed. Bellach, o ganlyniad i'r cynnydd yn yr oed ymddeol, maent wedi gorfod ailedrych ar eu hopsiynau, ac er bod nifer o'r menywod hyn yn wynebu cyflyrau iechyd tymor hir, neu wedi ymrwymo i ofalu am wyrion neu berthnasau hŷn, maent nawr yn gorfod ystyried ymestyn eu cyflogaeth bresennol neu chwilio am gyflogaeth newydd.

Yn ogystal â chodi'r mater yn y siambr yn San Steffan, dwi hefyd wedi ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anghydraddoldeb Pensiwn Gwladol i Fenywod gyda'r bwriad o ddal y Llywodraeth i gyfrif. Yma yng Ngheredigion dwi wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn Aberteifi, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan i godi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch, a dros yr wythnosau nesaf byddaf yn parhau i annog etholwyr ar draws Ceredigion i ymuno â mi yn yr ymgyrch ac i godi eu llais dros yr anghyfiawnder hwn.

Os hoffech chi wybod mwy am yr ymgyrch ewch i fy ngwefan www.plaidceredigion.cymru/pensions neu os hoffech chi drafod eich sefyllfa bersonol gyda mi, gallwch gysylltu'n uniongyrchol ar ebost: ben.lake.mp@parliament.uk neu drwy ffonio swyddfa'r etholaeth ar 01570 940333.

# Prosiect cyffrous sydd yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf

Mae 'Datgloi Hanes Cuddiedig y Rhyfel Mawr' yn canolbwyntio ar Gofnodion Tribiwnlysoedd yn y Llyfrgell Genedlaethol, archif sydd yn unigryw yng Nghymru. Roedd y tribiwnlysoedd yn ymdrin ag apeliadau yn erbyn gorfodaeth i fynd i ryfel am resymau personol, economaidd, moesol neu grefyddol. Ym 1921, gorchmynnodd y Llywodraeth y dylid dinistrio y cofnodion yma, ond goroesodd y rhai ar gyfer sir Aberteifi.

Bydd yr adnodd orffenedig ar gael ar wefan y Llyfrgell i ymchwilwyr, haneswyr teulu ac i unrhyw un sydd yn ymddiddori yn nhreftadaeth y Rhyfel Mawr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Gwyneth Davies 01970 632991 gwyneth.davies@llgc.org.uk

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

## Y BORTH



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Rhys Hedd Pugh-Evans, gynt o 5 Ffordd Clarach, ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf er anrhydedd (BSc Gwyddorau'r Heddlu) o Brifysgol De Cymru ym Mhontypridd.

Hoffai Rhys ddiolch o galon i drigolion Penrhyn-Coch fu mor barod eu cymwynas yn cwblhau holiaduron fu'n rhan allweddol o'i draethawd estynedig ar rôl PCSO's yn ardaloedd gwledig Dyfed-Powys.

Ar hyn o bryd mae'n parhau â'i waith fel technegydd theatr yn gweithio fel Rheolwr Technegol gyda *National Theatre Wales* ar sioe newydd i'w llwyfannu yn yr awyr agored yn Ninbych-y-pysgod y mis yma.

**Hen fam-gu**
Llongyfarchiadau mawr i Beti Lewis, Aberwennol, ar ddod yn hen-fam-gu yn ddiweddar.Ganwyd gor-ŵyr i Beti yn Barcelona.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Maldwyn a Susan Williams, Heol Aberwennol, a'r teulu a farwolaeth chwaer Maldwyn, sef Regina Jones, Llandre. Anfonwn ein cofion hefyd at Maldwyn gan iddo fod yn Ysbyty Glangwili yn derbyn llawdriniaeth yn ystod mis Awst. Gwellhad buan Maldwyn; edrychwn ymlaen at ei weld yn ôl yn y Borth yn fuan

**Pen blwydd**
Pen blwydd hapus iawn i Ron Davies, Y Graig ar ddathlu ei ben blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

**Mam-gu**
Llongyfarchiadau i Elin Hefin, Ynyswen gynt, ar ddod yn fam-gu. Ganwyd mab - Otis Hefin De Vigne - i Meg a'i phartner yn Leigh on Sea.

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau**
**Madog 2.00**
*Hydref*
7
14 Bugail
21 Elwyn Pryse
28 John Owen

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Elin Wallace, Troedyrhiw, ar raddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Sbaeneg ym Mhrifysgol Bangor yn ystod yr haf.

**Pen blwydd arbennig**
Yn ystod yr haf dathlodd Erwyd Howells, Tŷ Capel, ben blwydd arbennig yn 70 oed. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus.
Brysia wella hefyd i Gwenno ap Llywelyn sydd wedi torri pont ei hysgwydd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Eirian ac Arthur Hughes, Lluest Fach, ar golli cefnder - Mr Isaac Griffiths o Lanilar.
â Ray a Tudor Evans, Capel Dewi, ar golli tad Ray - Mr Gwilym Davies o Aberystwyth.

**Dymuniadau gorau**
Pob lwc i Megan Evans, Llain y Felin, yn Ysgol Penweddig. Llongyfarchiadau hefyd iddi hi a Siân am ddod yn llwyddiannus yn y sioeau lleol, yn adran y crefftau ac arlunio.








**Llongyfarchiadau i Hanna Binks ar dderbyn doethuriaeth yn y maes dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor. Yn y llun fe'i gwelir gyda'r Athro Enlli Thomas, Pennaeth yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol ym Mangor. Mae Hanna yn gweithio ar hyn o bryd yn Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth.**

**Nôl ar yr awyr**
Mae'n braf clywed a gweld Iola Wyn yn ôl ar y cyfryngau fel gohebydd y gorllewin ar Radio Cymru a Newyddion 9.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
morlan.cymru
01970-617996; post@morlan.cymru

# Sioe Penrhyn-coch 2018

Cynhaliwyd Sioe flynyddol Arddwriaethol Penrhyn-coch ar ddydd Sadwrn y deunawfed o Awst eleni, roedd y tywydd yn ffafriol, a daeth tyrfa o gystadleuwyr pell ac agos i gefnogi ein sioe bentref. Roedd pob adran â cheisiadau niferus ond, nid oedd y llysiau a ffrwythau gystal ag arfer; - y rheswm pennaf oedd y tywydd crasboeth a sych a gafwyd yn gynnar yn yr haf.

Ein Llywyddion eleni oedd Alwyn, Rhian,Carwyn a Gethin Davies. Mae Rhian yn enedigol o'r pentref, ond bellach wedi priodi Alwyn ac yn byw ar Fferm Brennan, New Cross a'r plant Carwyn a Gethin. Cafwyd araith bwrpasol gan Rhian a rhodd haelionus i gronfa'r Sioe. Tynnwyd y raffl gan aelodau o deulu Davies a cyflwynwyd y cwpanau a'r tlysau i'r buddugwyr.

Dyma restr o'r enillwyr lleol.

Pwyntiau uchaf yn Adran y Llysiau – Llysieuyn neu ffrwyth di siap – Gerti Morton, Penrhyn-coch a basged orau o Lysiau

Pwyntiau uchaf ac arddangosfa orau yn nosparthiadau Dahlias – Gwyn Jones,Bow Street

Pwyntiau uchaf yn Adran Cyffaith – Brenda Jones – Bow Street

Arddangosiad yn nosparth nofis Jam/ Sytni – Gaenor Fenner, Penrhyn-coch

Pwyntiau uchaf yn Adran y Coginio – Wendy Reynolds, Penrhyn-coch

Arddangosiad Gorau yn Adran Coginio – Annie May James, Penrhyn-coch

Cystadleuaeth Coginio Merched y Wawr – Aldwyth Lewis, Capel Madog

Cystadleuaeth Coginio Sefydliad y Merched – Elizabeth Lloyd, Penrhyn-coch

Arddangosiad Gorau yn Adran Cynyrch Llaethdy – Tomos James, Penrhyn-coch

Arddangosiad Gorau yn Adran Arlunio – Felicity Broadhurst, Penrhyn-coch

Pwyntiau uchaf ac arddangosiad gorau yn Adran Gwaith Llaw (B) – Hywel Evans, Capel Dewi

Pwyntiau uchaf yn Adran Gosod Blodau – Glenys Morgan Penrhyn-coch

Arddangosiad gorau yn Adran Gosod Blodau –Felicity Broadhurst. Penrhyn-coch

Arddangosiad gorau yn Adran Gosod Blodau(Nofis) –Dawn Lloyd Penrhyn-coch

Arddangosiad gorau yn Adran Gosod Blodau (Plant) – Carys James Penrhyn-coch

Arddangosiad gorau yn Cylch Meithrin Trefeurig – Gruffudd Jones – Penrhyn-coch

Arddangosiad gorau yn Cylch Ti a Fi – Lleucu James, Penrhyn-coch

Arddangosiad gorau yn Uned Brownies – Lois Clearly – Penrhyn-coch

Pwyntiau Uchaf yn Nosbarthiadau Ysgol Gynradd – Cydradd Megan Evans Cefn Llwyd a Henry Medhurst, Penrhyn-coch.

Arddangosiad gorau yn Ysgol Gynradd Steffan Gillies, Penrhyn-coch

Anifail anwes gorau ag eithrio cŵn – (Ceffyl) Annie May James.

Ci neu ast orau- Abigail Evans, Penrhyn-coch.

Pwyntiau Uchaf yn Ysgol Uwchradd – Martha Rowlands, Capel Madog

Pwyntiau Uchaf yn Nosbarthiadau Ysgol Uwchradd – Carys James Penrhyn-coch

Pwyntiau Uchaf ac Arddangosiad orau yn Nosbarthiadau Mêl – Bertie Jones Bow Street

Arddangosiad gorau a Pwyntiau uchaf yn Adran Ffotograffiaeth –Gerti Morton, Penrhyn-coch

Cwpan Parhawol R.A.O.B.am yr arddangosiad gorau yn y Neuadd , cyfyngedig i drigolion Plwyf Trefeurig – Dr Clive Williams, Penrhyn-coch

Pwyntiau uchaf yn Sioe Penrhyn-coch 2018 – Buddug Evans , Llanilar.

Dymuna aelodau Pwyllgor Sioe Penrhyn-coch ddiolch o galon i Lywyddion y Sioe, cyfrannwyr cwpanau a raffl y dydd , stiwardiaid a phawb a wnaeth y sioe yn llwyddiannus eleni eto.



3ydd, 2017



1af, 2017




1af, 2018



Llywyddion Sioe Penrhyn-coch 2018 - Mr a Mrs Alwyn. Davies, Carwyn a Gethin, Llanfihangel-y-Creuddyn. Gyda Mrs Eirian Morgan, mam Rhian. Llun: Meriel Ralphs.



Delyth, Aldwyth a Mair yn paratoi y stondinau ar gyfer y Sioe.



Model sgrats Dr Clive Williams, Cae Mawr, o Eglwys St Ioan - roedd pawb wedi synnu at fanylder y model. Llun: Meriel Ralphs

Llongyfarchiadau i enillwyr cystadleuaeth ffotograffiaeth *y Tincer* eleni yn Sioe Penrhyn-coch

1. Gerti Morton,
   Bysaleg Ger Llyn Blaenmelindwr
2. Alwena Pugh – Rhydyfelin
   Llyn Pen-dam, Penrhyn-coch
3. Tony Moyes, Penrhyn-coch
   Nant-y-Moch fel y Trydydd Byd

Hefyd enillwyr yr un gystadleuaeth y llynedd

1. Alwena Pugh , Rhydyfelin –
2. Juanita Foster Jones, Capel Bangor
   – methwyd cael copi o'r llun yma er cysylltu sawl gwaith
3. Gethin Davies, Brennan, New Cross
   – llun o'i ewythr Lloyd Edwards



2il, 2018



3ydd, 2018

# PENRHYN-COCH



**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwion Llŷr Dafydd (mab Elgan a Menna Davies, Bow Street) a Sara Rhiannon Jones (merch Meirion a Gwen Jones, Trefechan) sydd bellach yn byw ym Mhenrhyn-coch ar eu priodas yn Eglwys Mwnt dydd Gwener y 10fed o Awst, a'r wledd briodas yng Ngwesty'r Cliff.



**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Catryn Lawrence, Pennaeth Ysgol Penrhyn-coch a Gwilym Beaumont Morgan a briodwyd ar Orffennaf 28.

**Suliau Horeb**

*Medi*

**23** 10.30 Y Parchg John Roberts
**30** 10.30 Beti Griffiths. Ni fydd Ysgol Sul

*Hydref*

**7** 2.30 Y Parchg Peter Thomas. Oedfa gymun
**14** 10.30 Y Parchg Peter Thomas oedfa deuluol
**21** 10.00 Cyd-addoli yn Noddfa Bow Street – Cyfeillach
10.30 Ysgol Sul ar y cyd yn St Ioan
**28** 10.30 Gareth William Jones – Bethesda a'r ifaciwis

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Medi, 10 a 24 Hydref. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau hwyr i Genny Tagoe, disgybl yn Ysgol Comins-coch, ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth oedran blwyddyn 5 a 6 i ddysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am ysgrifennu rhyddiaeth ar destun 'Fy hobi'.

**Brownies Penrhyn-coch yn cyfansoddi!**
Llongyfarchiadau i Brownies Penrhyn-coch am gyfansoddi cân Gymraeg newydd eu hunain yn ddiweddar.
Yn dilyn cyfres o weithdai arbennig gyda'r gantores ifanc Mari Mathias o Dalgarreg penderfynodd y merched gyfansoddi cân ar y cyd. Recordiwyd y gân "Yn yr Haf" gyda'r merched yn canu i gyfeiliant Mari ar y gitâr a derbyniodd pob aelod o'r grŵp gopi o'r gân ar CD. Roedd y gweithdai yn rhan o raglen o weithgarddau Cymraeg a drefnwyd gan Cered- Menter Iaith Ceredigion ar gyfer y grŵp eleni. Dywedodd Rhodri Francis, Swyddog Datblygu'r Fenter "Mae wedi bod yn bleser cydweithio gyda'r grŵp ac ryn ni'n llongyfarch yr aelodau ar eu campwaith. Diolch hefyd i'r arweinwyr am eu brwdfrydedd wrth sicrhau cyfleoedd cymdeithasu Cymraeg i'r plant ym Mhenrhyn-coch tu allan i oriau ysgol"

Dywedodd Wendy Reynolds, Arweinydd Uned Brownies Penrhyn-coch "Mae'r profiad yma wedi bod yn wych i'r merched ac maent wedi cael llawer o hwyl gyda'r gweithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg."

**Diolch**
Dymunaf ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r cyfarchion a dderbyniais ar achlysur pen blwydd arbennig yn ddiweddar.. Elisabeth Wyn

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Valerie a Sharon Jones, Maes Seilo ar farwolaeth Ceinion Jones ar Orffennaf 10; hefyd â'r Parchg Peter Thomas a'r teulu ar farwolaeth modryb – Mary Celia Hughes-Evans, Aberystwyth (gynt o Swyddffynnon) ar Awst 22ain ac â Llio Adams a'r teulu, Glyn Helyg, ar farwolaeth tad Llio – Ariel Thomas, Llanwnda, ar Fedi 1af.

**Gwella**
Da deall fod y Parchg Lyn Lewis Dafis yn gwella ac yn nôl yn gweithio yn raddol ym mis Medi. Dymunwn yn dda iddo.

**Horeb**
Cynhelir cwrdd diolchgarwch Horeb nos Fercher Hydref 3ydd am 7.00 pan fydd Llinos Penfold, Mynachlog-ddu yn sôn am y daith wnaeth i Nepal dan nawdd BMS ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Croeso i bawb.

**Dosbarthu**
Diolch yn fawr i D Rees Morgan, Maes





**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Owain James, Pen-banc a Sophie a briodwyd yn Eglwys Llanbadarn ar Fehefin 23ain.

Seilo ( fu'n gyswllt â dosbarthwyr eraill y pentref ar hyd y blynyddoedd) a Bethan Davies, (dosbarthu yn ardal Glan Ceulan). Oherwydd ymrwymiadau maent wedi 'ymddeol' eleni. Diolch i Elisabeth Wyn a Janice Morris am gynnig dosbarthu yn ardal Glan Ceulan. Bydd Richard Owen ac eraill yn cynorthwyo gyda gweddill y gwaith.

**Eglwys St Ioan**
Cynhelir gwasanaeth arbennig diolchgarwch am y cynhaeaf am 11.00 dydd Sul 30 Medi.

Bu dau wasanaeth bedydd yn ystod yr haf; ar Orffennaf 22 bedyddiwyd Oscar Henry Makaruk, mab Stephanie a Robert ac ar Awst 19 bedyddiwyd Macy Alys Phillips, merch Natasha a Martyn.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
18 Awst Treffynnon 2 Penrhyn-coch 3
21 Awst Penrhyn-coch 3 Cegidfa (Guilsfield) 0
24 Awst Y Rhyl 3 Penrhyn-coch 1
1 Medi Penrhyn-coch 1 Y Fflint 0

**Y ddiweddar Daphne A. Miles**
Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda theulu Trevor Miles, Ger-y-llan, a'i ferch Katy a'r wyrion yn dilyn marwolaeth ei briod Daphne ar 24 Awst. Yn enedigol o Aberhonddu, roedd Daphne yn wyneb cyfarwydd iawn i nifer wrth ei gwaith fel derbynnydd yng Nghanolfan Hamdden Plas-crug am nifer o flynyddoedd. Cynhaliwyd yr angladd a'r gladdedigaeth yn Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch ar 4 Medi dan ofal Y Parchg Alun Evans.





**Te mefus Eglwys St Ioan - Helen Edwards, Fferm Cwrt, Llywydd y prynhawn gyda Gweneira Marshall ac Edwina Davies.**

**Llwyddiant ail iaith**
Llongyfarchiadau i Steve, Ger y Cwm, ar basio ei arholiad lefel Mynediad Cymraeg ail iaith gyda 90%.



**Graddio a Swydd**
Llongyfarchiadau i Gwenno Morris, Preseli am dderbyn gradd B.A Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig - Dosbarth Cyntaf, o Brifysgol Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Derbyniodd hefyd Ysgoloriaeth Gweithgareddau Allgyrsiol. Pob lwc iddi yn y dyfodol.

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn**
**Gweler hefyd http:** //www.capelygarn.org/
**10.00 a 5.00**
**Medi**
23 Paul Bryant-Quinn
30 Gweinidog
**Hydref**
7 Noddfa
14 Bugail Cymun
21 Elwyn Pryse
28 John Owen

**Noddfa**
**Medi**
23 Parchg Richard Lewis
30 Sul Menter Gobaith
**Hydref**
7 Parchg Richard Lewis Y Garn yn uno
14 Parchg Richard Lewis Cymundeb
21 Cyfeillach
28 Parchg J. E. Wynne Davies

**Graddio**
Llongyfarchiadaua i Lleucu Haf, Bryncastell, ar raddio gyda BA Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Ffrangeg, Eidaleg ac Almaeneg ddiwedd Mehefin. Gwelir hi gyda'i merch fach Eleanor – 6 mis oed.



**I'r Coleg**
Cofiwn am deulu Gwyddfor gynt, ym Mhen Llŷn. Derbyniodd Owain Rhys, Llanarmon, wobr rhagoriaeth ym maes Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ddiweddar. Mae wedi dewis dilyn cwrs Gwyddoniaeth Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau iddo.

**Menter newydd**
Dymuniadau gorau i Martin a Meinir Chambers sydd wedi cymryd y siop sglodion drosodd yn y pentref.

**Apwyntiad**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Nerys Brown (née Jones – Dryslwyn gynt) ar ei hapwyntiad fel Rheithor Eglwys y Santes Fair, Dunblane, yr Alban.

**Nôl gartref**
Da deall fod Howell Ebenezer nôl gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty a wedyn gyda teulu yng nghanol y Sir.

**Bore Coffi Mwya'r Byd**
Rhwng 10 a 12 fore Sadwrn 22 Medi cynhelir Bore Coffi Mwya'r Byd er budd Cymorth Canser Macmillan yn Neuadd Rhydypennau. Croeso i bawb alw fewn am baned a chacen ac i gefnogi'r elusen werthfawr hon, byddai'n braf iawn eich gweld!

**Ymddeoliad**
Pob dymuniad da i Mr Tegwyn Evans, Maesafallen, ar ei ymddeoliad fel Gofalwr Neuadd Rhydypennau ddiwedd mis Gorffennaf wedi 16 mlynedd o wasanaeth. Diolchwn i Tegwyn am bob cymorth a chydweithrediad ar hyd y blynyddoedd.



**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Hywel ac Anwen – ysgrifennydd y Tincer - ar eu dyweddiad ddechrau'r haf.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau mawr i John a Maria Owen ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod mis Awst.

**Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd**
Llongyfarchiadau mawr i Gareth William Jones, Hafle, ar ennill y wobr gyntaf am lunio drama ar gyfer y radio ac hefyd i Aled Myrddin, Cae Rhos, ar ei lwyddiant fel Arweinydd Côr Meibion Machynlleth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**Tad-cu a Mam-gu**
Llongyfarchiadau i Tegwyn a Sian, Maesafallen, ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto ar enedigaeth Gwenno Haf, i Craig a Cerys yn Llan-non; chwaer fach i Harri.



**Codi arian i elusen**
Gwenith ap Robert yn dod drwy Bow Street gyda chriw o feicwyr ar ran olaf eu taith o gan milltir dydd Sadwrn yr 16eg Mehefin. Bob blwyddyn mae'r 'Ship & Castle' yn Aberystwyth yn trefnu saith feicio can milltir i godi arian at elusen. Eleni roedden nhw'n codi arian at 'The Sick Children's Trust' sydd yn darparu llety i rieni fod yn agos at eu plant sydd yn yr ysbyty. Roedd y daith y tro hwn hefyd er cof am Seren Picken a fu farw yn dri mis oed.

**Pen blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Mr Glyn Morgan, Ty`n Rhos, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 ar y 7ed o Fedi.



**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau mawr i Gwynant a Bet Evans a fydd yn dathlu eu Priodas aur ar yr 28ain o Fedi

**Priodasau**



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Jamie, mab Sarah a'r diweddar Roland Dawes, Porthmadog, a Seiriol, mab Marian a Iestyn Hughes, Bow Street a briodwyd ar Orffennaf 14eg yn Nant Gwrtheyrn.



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dr Ffion Reynolds, merch Liz a Huw Reynolds, Llandaf a Ms Sara Huws, merch Marian a Iestyn Hughes, Maes y Garn, a briodwyd yng Nghaerdydd ar Fedi 1af.

**Sioe Rhydypennau**

Bu Sioe Arddwriaethol Rhydypennau a gynhaliwyd ar y 1af o Fedi yn llwyddiant mawr eleni eto a diolchir o galon i bawb am bob cymorth a chydweithrediad. Cafwyd cystadlu arbennig yn yr adran Lysiau ac yn yr adran Gwaith Llaw ac yr oedd yn syndod gweld cymaint o lysiau o safon mor uchel o gofio am y tywydd sych a gafwyd ynystod y haf.. Hon oedd sioe gyntaf Mrs Davina Davies, Maes-y-Garn, wrth y llyw fel Ysgrifennydd Cyffredinol a mawr yw ein gwerthfawrogiad o'i pharodrwydd i gymryd at y swdd yn dilyn ymddeoliad Mr a Mrs Gareth Lewis.

**Clwb 300 Neuadd Rhydypennau**

Cychwynwyd Clwb gan y Neuadd Dyma enwau enillwyr mis Medi:
Linda Faulkner £40; Gwenan Williams £20
Michael Blair £10; Paul Jackson £5

# TREFEURIG

**Grŵp yn ennill Albwm Cymraeg y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau i Ellis Walker, Llety'r Ddwylan, ac aelodau grŵp Mellt am ennill y wobr am Albwm Cymraeg y Flwyddyn eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd am eu halbwm 'Mae'n hawdd pan ti'n ifanc'.

Ar Wicipedia ceir "Gwobr am gerddoriaeth gyfoes Cymraeg yw Albwm Cymraeg y flwyddyn sy›n cael ei roi yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Lansiwyd y wobr yn 2013 ar faes Eisteddfod Dinbych yn dilyn argymhellion gan adolygiad o Maes B a gafodd ei wneud gan yr Eisteddfod yn 2012. Mae gan y wobr yr un statws a medal T. H. Parry Williams neu›r Fedal Wyddoniaeth.

Mae'r wobr yn ystyried albymau a gafodd eu rhyddhau rhwng 1 Mawrth y flwyddyn cynt a diwedd mis Chwefror. Dyfarnir y rhestr fer a'r enillydd gan reithgor o unigolion sy'n ymwneud â'r diwydiant cerdd yng Nghymru. Cyhoeddir y rhestr fer ar ddiwedd mis Mehefin gyda'r enillydd yn cael eu henwi ar y Maes ar ddydd Iau'r Eisteddfod. Cyhoeddwyd yr enillydd cyntaf yn 2014.

Ar restr fer eleni roedd albyms gan Fand Pres Llarregub, Blodau Gwylltion, Bob Delyn a'r Ebillion, Gai Toms, Gwyneth Glyn, Mr Phormula, Y Cledrau a'r Eira.





Tudor Gethin, Bow Street yn derbyn y cwpan gan Evan Jenkins, y Llywydd, am y nifer uchaf o bwyntiau yn y babell i gyd - enillodd 7 cwpan yn sioe Tal-y-bont ar 25 Awst.



Morgan Iwan Ebenezer Ellis, un o facwyaid Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 fu'n brysur gyda'r orsedd yn Awst gyda'i fam – Anwen Ebenezer Ellis, Bryn Castell gynt.

# LLANDRE

**Swydd**
Llongyfarchiadau i Osian Penri, Taigwynion, ar ei benodiad yn gofrestrydd arbenigol mewn llawfeddygaeth yn Neoniaeth Cymru. Bydd yn gweithio yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd.
A llongyfarchiadau iddo hefyd a dymuniadau gorau ar ei ddyweddiad â Erwain Alaw ddiwedd Gorffennaf.
A llongyfarchiadau i Gwern Penri, Taigwynion, raddiodd yng Ngorffennaf ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd mewn Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Meinir Olwen ar raddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Bangor

**Eisteddfod Caerdydd**
Ar ôl hoe o 17 mlynedd gwelwyd y grŵp 'Diffiniad' yn perfformio ar Lwyfan y Maes Radio Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Daeth cynulleidfa o tua 7,000 i ymuno yn y parti ym Mae Caerdydd ar nos Wener yr Eisteddfod i wylio 'Diffiniad' yn perfformio ffefrynnau fel 'Calon', 'Ffynci Brenin Disco' ac 'Angen Ffrind'. Mae Iestyn Lloyd Davies, Pentan yn aelod o'r grŵp a dyma lun o'r noson arbennig.

Roedd aelod arall o deulu Pentan hefyd yn perfformio yn yr Eisteddfod. Mae Glain Llwyd yn aelod o Gwmni Theatr Ieuenctid Canolfan y Celfyddydau a fu'n perfformio darn o theatr stryd o'r enw 'Y Gadair Ddu'.



Yn ogystal, cafodd Glain ei enwi fel un o actorion gorau cystadleuaeth Drama fer yr Eisteddfod yn dilyn ei pherfformiad yn y ddrama 'Tu hwnt i bob gofid' gyda Cwmni Doli Micstiyrs. Llongyfarchiadau i ti Glain! Dyma lun o'r perfformiad theatr stryd.




**Cydymdeimlad**
Drwg iawn yw cofnodi marwolaeth Regina Jones, Fron y Gân, yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'i gŵr Sis a'u plant sef Ann, John Henry ac Alun a'u teuluoedd.
Cydymdeimlwn hefyd â Gwyneth Evans, Shan ac Andrew a'u teuluoedd ar golli gŵr a thad annwyl, sef David Evans, Hendre, Maeshendre.

**Pen blwydd arbennig**
Dymunwn ben blwydd hapus i Linda Melville Jones ar gyrraedd oed yr addewid ar Fedi 17eg.

**Ymfudo**
Dymunwn yn dda i Dafydd Sills Jones, Poli, Lisa ac Oban Ellis Jones sydd wedi mudo i Auckland, Seland Newydd o Glos y Ceiliog, Llandre. Penodwyd Dafydd yn Athro Cysylltiol mewn Cynhyrchu Sgrîn ym Mhrifysgol Technolegol Auckland.

# Swydd newydd gyda S4C i Manon

Mae S4C wedi penodi Manon Wyn James, yn wreiddiol o Lanfihangel Genau'r-glyn fel Pennaeth Tîm Cyfathrebu'r sianel. Mae Manon erbyn hyn yn byw yn Nhregaron gyda'i gŵr Gwion a'u tri o blant – Ianto, Twm a Nel. Bu'n gweithio i Urdd Gobaith Cymru am flynyddoedd helaeth cyn symud i weithio gyda thîm cyfathrebu Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn fwy diweddar. Cychwynnodd ar ei swydd newydd gyda S4C ddiwedd fis Awst. Fel rhan o'r swydd bydd yn arwain y tîm cyfathrebu ac yn delio gyda'r wasg, digwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd a gwasanaeth Gwifren Gwylwyr sy'n delio gyda'r holl sylwadau gan y cyhoedd am S4C.

Meddai Manon: "Dwi'n hynod o falch i gael ymuno gyda staff S4C mewn cyfnod cyffrous tu hwnt wrth i'r sianel adleoli i adeilad newydd sbon Yr Egin yng Nghaerfyrddin. Dwi wedi tyfu fyny gyda S4C ac mae hi wir yn fraint cael gweithio i sefydliad mor allweddol i'r iaith Gymraeg ac i Gymru.






**Diolch**
Hoffai Nia Peris, Tyddyn Llwyn ddiolch o galon i bawb am bob cymorth a chefnogaeth tuag at ei reid feics 325 milltir dros dridiau y mis yma i nodi pen blwydd arbennig ond yn bennaf oll er budd Cymorth Canser Macmillan. Mae haelioni pawb wedi bod yn syfrdanol, ac mae modd cyfrannu o hyd tan ddiwedd Medi, ar www.justgiving.com/fundraising/nia-peris neu yn bersonol. Bydd Nia hefyd yn cynnal Bore Coffi Mwya'r Byd er budd Macmillan yn Neuadd Rhydypennau rhwng 10 a 12 fore Sadwrn 22 Medi, gyda chroeso mawr i bawb.

Llongyfarchiadau mawr i Nia  seiclodd 333 milltir mewn 3 diwrnod! Codwyd hyd yn hyn gyfanswm o £4,500 i MacMillan Cymru . Cofiwch  fod modd dal i gyfrannu – a chofiwch am y bore coffi!



**Llwyddiant yn y Sioe**
Da iawn i Mirain am fod yn fuddugol yn Adran Plant Cynradd Sioe Rhydypennau.

# Criw TGAU Drama Arad Goch



Mae 19 o ddisgyblion newydd gychwyn ar y cwrs Drama TGAU eleni, yn gymysg o ysgolion Penweddig, Aberaeron a Henry Richard, Tregaron. Maent yn cwrdd yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol yng Nghanolfan Arad Goch. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r cwrs redeg yn y ganolfan. Bydd y disgyblion yn dilyn cwrs TGAU Drama am y ddwy flynedd nesa, cwrs a fydd yn cynnwys elfennau o berfformio, cyfarwyddo, cynllunio llwyfan a thechnegol yn ogystal â dadansoddi a gwerthuso testunau a theatr fyw. Catrin Mai, Llandre, fydd yn arwain y cwrs ond bydd gweithdai arbenigol yn cael eu cynnig hefyd gan Jeremy Turner a Simon Lovatt o Arad Goch. Mae Catrin Mai yn athrawes brofiadol sydd wedi bod yn dysgu y cwrs TGAU mewn sawl ysgol yng Ngheredigion, ac hefyd yn ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Y gobaith fydd i wahodd ymarferwyr allanol mewn i redeg gweithdai theatrig yn ystod y ddwy flynedd fel bod y disgyblion yn cael blas ar ystod eang o ddrama."



**Afon Clarach yn sych**
Afon Clarach ganol Awst - nid oedd dŵr yn yr afon i fyny o le mae'n ymuno â nant Bow Street.
Llun: Jackie Willmington

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

## Llythyr

4 Medi 2018
Annwyl Olygydd
CYFARFOD CYHOEDDUS EISTEDDFOD 2020

Rwy'n ysgrifennu atoch i holi a oes modd i chi ein helpu i hyrwyddo'r ffaith y cynhelir cyfarfod cyhoeddus i groesawu Eisteddfod Genedlaethol 2020 i Geredigion yn Ysgol Gyfun Aberaeron, nos Iau, 20 Medi, os gwelwch yn dda.

Bwriad y cyfarfod, a gynhelir am 19:00, yw gwahodd trigolion yr ardal i fod yn rhan o'r paratoadau a'r trefniadau ar gyfer un o wyliau mawr y byd a gynhelir yn y sir o 1-8 Awst, gyda'r cyngerdd agoriadol ar nos Wener 31 Gorffennaf 2020.

Mae croeso mawr i bawb, ac mae'r trefnwyr yn awyddus i ddenu unigolion o bob rhan o'r ardal i fod yn rhan o'r prosiect. Mae cefnogaeth leol yn eithriadol o bwysig i lwyddiant yr Eisteddfod a'r gwaith a wneir ar lawr gwlad yn rhan ganolog o'r prosiect.

Mae'n anodd credu bod mwy na chwarter canrif wedi pasio ers i ni ymweld ag ardal Ceredigion, ac rydym yn edrych ymlaen at ddod â'r ŵyl yn ôl i ardal sydd bob amser wedi rhoi croeso cynnes iawn i'r Eisteddfod.

Mae'r gweithgareddau cymunedol a'r gwaith allymestyn dros y ddwy flynedd nesaf yn greiddiol i amcanion yr Eisteddfod, a'r gobaith yw y gallwn ddenu criw mawr o wirfoddolwyr brwdfrydig, yn hen ffrindiau a wynebau newydd, i fod yn rhan o'r tîm y tro hwn.

Bydd y gwaith yn cychwyn bron yn syth, gan y byddwn yn dechrau rhoi'r Rhestr Testunau at ei gilydd o fewn ychydig wythnosau ac yn creu pwyllgorau apêl lleol ar draws y dalgylch i ddechrau ar y gwaith o drefnu gweithgareddau a chodi arian.

Felly, dewch draw atom i Aberaeron i glywed mwy am y prosiect, soniwch wrth eich ffrindiau a'ch cydweithwyr, a helpwch ni i greu tîm cryf gyda phobl o bob oed a chefndir sy'n awyddus i weld y Gymraeg yn ffynnu a'r Eisteddfod yn mynd o nerth i nerth yn lleol a chenedlaethol.

Gellir cofrestru ar-lein i fod yn rhan o dîm Eisteddfod 2020 drwy glicio yma https://eisteddfod.cymru/eisteddfod-2020/cefnogi/ymuno-a-thim-eisteddfod-2020. Bydd gwefan Eisteddfod 2020 yn cael ei datblygu dros y misoedd nesaf, neu gallwch ffonio'r swyddfa ar 0845 4090 400 am ragor o wybodaeth.

Yn gywir,
Elen Elis (Trefnydd)


Trydan
WILL DAVEY

Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi

NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey


## Steddfod 1/2 call a dwl

Papurau Bro Ceredigion

Nos Wener 12 Hydref 2018
Neuadd Felinfach

Drysau'n agor: 7pm  Cystadlu'n dechrau: 7.30pm
Tâl mynediad: £3

Arweinydd Ben Lake AS
Beirniaid Elen Pencwm ac Aled Evans

**Cystadlaethau Llwyfan**

**Darllen darn heb atalnodi**

**'Sgen ti 'dric parti'?**
Dim mwy na 3 munud

**Parti llefaru**
Darlleniad dramatig allan o bapur bro
Hunan-ddewisiad

**Cyflwyniad cerddorol**
Triawd y Buarth

**Cân Actol**
Ar lan y môr
Dim mwy na 4 munud

**Gwaith Cartref**

**Ysgol Gynradd**
Llun unrhyw gyfrwng: Y Môr

**Ysgol Uwchradd**
Erthygl addas i bapur bro
Testun: Y Môr

**Dysgwyr**
Dyddiadur Diwrnod Braf

**Agored**

**Brawddeg** TRAWSGOED

**Limrig**
'Rwyf nawr yn rhy hen medde Sami...

**Stori Ficro** - dim mwy na 100 gair

**Ffotograffiaeth**
Eich hoff le yng Ngheredigion

Danfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw eich papur bro mewn amlen) erbyn **5 Hydref i: Y DDOLEN, Brynawel, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HU** neu drwy ebost i **y.ddolen@gmail.com**

Cefnogwch eich Papur Bro!
Dewch mlân - cystadlwch!

Eglwys Efengylaidd
Aberystwyth

Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein

## Swper Diolchgarwch

Canolfan y Gymuned, Waunfawr
Nos Sadwrn, Hydref 6ed am 6.00yh

Siaradwr:
Dewi Tudur Lewis

Croeso Cynnes i Bawb!


www.eglwysefengylaiddaberystwyth.co.uk

## Colofn Enwau Lleoedd

# Lluest y Meinciau

Y mis hwn rŷn ni'n troi ein golygon at lethrau Pumlumon, ac yn fwy penodol at hen luest Maesnant ar lan cangen ddwyreiniol cronfa Nant-y-moch.

Mapiwyd tiroedd y lluest honno ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, a gellir gweld y map a luniwyd yng nghasgliad Mapiau Stad Gogerddan yn y Llyfrgell Genedlaethol, neu drwy fynd i: www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/mapiau/mapiau-ystadau/ystad-gogerddan/. Un o'r nentydd a gofnodir ar y map hwnnw yw *Nant y Meincau* (er mai'r enw arni ar fapiau diweddarach yr Arolwg Ordnans yw *Maesnant*).





***Mapiau Stad Gogerddan cyfrol 37 (1790) tudalen 47, Maesnant.***
***Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru***

Rhyw hanner canrif yn gynharach, yn ei arolwg o Gwmwd Perfedd yn 1744, mae Lewis Morris yn rhestru '*Lluest y Meingciau*, in ruins' ymhlith bythynnod plwyf Trefeurig. Gellir gweld adfeilion y lluest ar law dde'r ffordd arw sy'n arwain i fyny at Lyn Llygad Rheidol, ar lan *Nant y Meinciau*.

Nid oes amheuaeth nad ffurf luosog yr enw *mainc* 'sedd hir, silff' sydd yma, ond beth yw ei arwyddocâd yng nghyd-destun enwau'r lluest a'r nant?

Yn union i'r gogledd-ddwyrain o *Luest y Meinciau* ceir tair rhes drawiadol o greigiau sef *Fainc Ddu*, *Fainc Ddu Uchaf*, a *Fainc Ddu Isaf*. Ystyr drosiadol sydd i *mainc* yn yr enwau hyn, am greigiau sy'n ymdebygu i feinciau neu silffoedd. Y tair rhes creigiau hyn fu'n gyfrifol am roi eu henwau i *Luest y Meinciau* a *Nant y Meinciau* felly.




***© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2018). All rights reserved. (1980s).***

Fel mae'n digwydd, mae map Stad Gogerddan o Maesnant yn cofnodi enghraifft arall o'r un elfen gerllaw, sef *Meincau Tomlyd*, ond yn anffodus, mae ei leoliad bellach dan ddŵr cronfa Nant-y-moch.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

Gellir ymuno â'r Gymdeithas am £10 y flwyddyn. E-bostiwch enwaulleoedd@gmail.com i ofyn am ffurflen aelodaeth.

Os am ddysgu rhagor am enwau lleoedd Pumlumon, beth am ymuno â **Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru** ar **Daith Gerdded yn ardal Pumlumon dan arweiniad Angharad Fychan**, **Ddydd Sul, 23 Medi, am 11yb?**

Cyfarfod ym maes parcio argae Nant-y-moch, lle trefnir cludiant i'r man cychwyn. Cerdded i gyffiniau Llyn Llygad Rheidol gydag opsiwn o ddychwelyd yn syth yr un ffordd (cyfanswm o tua 5.5 milltir), neu fynd ymlaen i gopa Pumlumon a dychwelyd ar lwybr arall (cyfanswm o tua 6 milltir). Fe'ch cynghorir i wisgo dillad ac esgidiau addas. Dewch â chinio gyda chi. Bydd pob cerddwr yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun ac am ddiogelwch unrhyw blant yn ei ofal.

***Ni chodir tâl am y ddau ddigwyddiad, ond croesewir cyfraniadau at elusennau Macmillan a Cancer Research Wales er cof am Siân Wenlli, Llangernyw, cyfnither Angharad.***

Enwau i angharad.fychan@googlemail.com / 07929 899002.

## Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol Penrhyn-coch

**Wythnos Rhyngwladol**
Cafwyd wythnos yn dathlu diwylliannau gwledydd gwahanol-Cyfnod Sylfaen yn astudio Awstralia, Bl 3 a 4 oedd yng ngwyllt Botswana a blwyddyn 5 a 6 ym Mhatagonia. Cafodd criw y Cyfnod Sylfaen hwyl yn coginio corn melys ar farbaciw,buodd Bl 5 a 6 yn yfed Te enwog Patagonia a chafodd Bl 3 hwyl yn cyfansoddi ar ddrymiau Affricanaidd yn ogystal a dawnsio i guriad y sŵn! Ar ddiwedd yr wythnos fe drowyd dosbarth Bl 5 a 6 mewn i dŷ te lle trafodwyd yr hyn a ddysgwyd a blaswyd bara brith a chacen ddu o Batagonia. Diolch o galon i Mr. Ceris Gruffudd am ei gymorth gyda'r prosiect.

**Taith preswyl yr Urdd i Gaerdydd**
Am wyliau i'w gofio! Arhosodd blwyddyn 5 a 6 am ddwy noson yng ngwersyll yr Urdd yng Nghaerdydd. Buodd y disgyblion yn chwarae bowlio deg, teithio ar gwch, ymweld â Stadiwm Pêl-Droed Dinas Caerdydd ac i goroni'r cyfan ymweld â'r Senedd.

**Trip Traeth Y Borth**
Cafodd y Cyfnod Sylfaen amser da lawr ar draeth Y Borth yn ymweld â'r Bad achub, chwarae ar y traeth a gwlychu yn y môr! Cerdded hyd y traeth ac i orffen gyda hufen iâ yn 'Y Lle'. Blasus iawn yn doedd blantos.

**Mabolgampau Penrhyn-coch a Phen-llwyn**
Cafwyd mabolgampau cystadleuol iawn eleni eto ar dir ysgol Pen-llwyn - o dan arweiniad Mr Shepherd cafwyd cystadlaethau amrywiol o'r wy a'r llwy i'r ras sach!

Llongyfarchiadau i dîmau Seilo a Melindwr – oedd â'r pwyntiau uchaf ar ddiwedd yr holl gystadlu!

**Ynys-hir**
I gwblhau ein hastudiaeth Gwyddoniaeth am y tymor cawsom ddiwrnod arbennig yn Ynys-hir wrth chwilota am drychfilod yn y gwteri, yn y gwair hir ac o gwmpas y coed. Roedd yn brofiad hyfryd.

**Y Proms**
Cymerodd Cari Jenkins ran wrth chwarae yn y grŵp telynau ac roedd nifer o'r criw Bl 6 wedi mwynhau canu yng nghôr Ceredigion - da iawn chi am gymryd rhan –profiad bythgofiadwy i chi.

**Gwobr Efydd Teithiau Iach**
Dathlwyd camp arall ar ddiwedd y tymor wrth i'r criw Teithiau Iach dderbyn y wobr efydd am eu gwaith yn hyrwyddo teithio iach megis beicio,sgwtera a cherdded i'r ysgol. Da iawn chi a diolch i John Nelson a fuodd yn ein cynorthwyo wrth gynnal sesiynau beicio am gyfnod o wythnosau.







**Ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6**
Trist oedd ffarwelio gyda disgyblion blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Dymunwn pob hwyl a llwyddiant i Gwion, Cai, Ryan, Tomos, Ffion, Megan, Gwenan, Lacey, Sophie a Bethany yn eu hysgolion uwchradd.



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Miss Lawrence a Gwilym ar eu priodas ym Mis Gorffennaf. Dymunwn pob hapusrwydd i chi.










# Ysgol Craig yr Wylfa

**Croeso**

Braf oedd gweld pawb yn dod 'nôl i'r Ysgol yn frwdfrydig ac yn barod am fwrlwm y flwyddyn ysgol sydd i ddod. Hoffwn groesawu saith disgybl newydd i'r ysgol. Yn nosbarth Cyfnod Allweddol dau, croesawn aelod newydd o staff, sef Miss Jackson, a fydd yn gweithio fel cynorthwy-ydd yn y dosbarth.

**Cerddoriaeth Cŵl Cymraeg Craig!**

Daeth "Ynni Da", i'r ysgol fel rhan o brosiect Siarter Iaith. Gwnaeth y plant wrando a dewis caneuon Cymraeg i chwarae yn y disgo, ac yna creu pŵer i chwarae'r gerddoriaeth drwy bedlo ar y beiciau i greu'r pŵer. Cafodd y plant ddiwrnod i'r brenin wrth iddynt rocio i gerddoriaeth Cymraeg cŵl.

**Mabolgampau'r Sir**

Da iawn i bob plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2 a gymerodd ran ym Mabolgampau'r Sir. Roeddech i gyd yn amlwg wedi mwynhau cymryd rhan - da iawn chi am gynrychioli'r Ysgol.

**"Na, Nel!"**

Bu blwyddyn 1 a 2 yn gwylio sioe o'r enw "Na Nel" ar ddiwedd y tymor yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Roedd y plant wedi mwynhau gwylio'r sioe yn fawr iawn.

**Gwobr Efydd "Sustrans"**

Derbyniodd yr Ysgol Wobr Efydd "Sustrans". Mae hyn oherwydd i ni gymryd rhan yn y Bws Cerdded a gynhelir bob bore dydd Gwener ac sydd yn cael ei redeg gan Huw Jones, "Wheelie Wednesdays", dydd sgiliau beic a Dr Beic, ac i bawb a gymerodd ran yn yr wythnos cerdded i'r Ysgol.

**Trip Ysgol**

Eleni aeth dosbarth Miss Edwards am drip i Lanerchaeron. Cafodd pawb gyfle i wneud sebon a chyfle i fynd am dro yn y goedwig i chwilio am dai'r tylwyth teg.

Aeth disgyblion dosbarth Miss Davies a Mrs Walker i Fwyngloddiau Aur Dolaucothi, Pumsaint, ble gawsant gyfle i fynd o dan ddaear i weld yr hen fwyngloddiau aur a chyfle i chwilota am aur. Tybed a wnaeth rywun ei ffortiwn y diwrnod yna?

**Hip-Hip, Hwre!**

Ar brynhawn Sadwrn, 14eg o Orffennaf, cynhaliwyd parti ar dir yr Ysgol i ddathlu fod adeilad yr Ysgol yna ers 50 mlynedd. Roedd yna de prynhawn, castell neidio, amryw o stondinau gyda'r plant a gêmau - rhywbeth at ddant pawb. Braf oedd gweld cymaint wedi dod i ddathlu! Diolch am eich cefnogaeth ar y diwrnod ac am bob cymorth a dderbyniwyd oddi wrth bawb a fu'n paratoi tuag at y parti mawr!
Cyn diwrnod y parti, roedd cystadleuaeth i ddylunio bag i ddathlu pen blwydd yr Ysgol yn 50. Llongyfarchiadau i Chloe Pemberthy o flwyddyn 3 am ennill y gystadleuaeth. Mae'r bagiau ar werth yn yr ysgol os oes rhywun am brynu un – maent yn bert iawn!

**Gŵyl Aml Sgiliau**

Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 gyfle i fynd i Ŵyl Aml Sgiliau ar gaeau Penweddig. Cawsant gyfle i ddawnsio, gwneud sgiliau rygbi, pêl-droed ac amryw o sgiliau hwyliog eraill.

**Arwyddion Cymraeg Newydd**

Cyn ddiwedd y tymor, cyrhaeddodd arwyddion Cymraeg newydd, a ddewiswyd gan Gyngor Cymraeg Craig, fel rhan o brosiect Siarter Iaith. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant, staff a rhieni yn frwdfrydig am yr arwyddion a'i gweld yn defnyddio'r arwyddion Cymraeg.

**Ffarwelio**

Ar ddiwedd tymor yr Haf, roedd yr ysgol yn drist iawn i ffarwelio a chwe disgybl o flwyddyn 6, a dwy aelod ffyddlon o'r staff. Ffarweliwyd a Louis, Finn, Glyn, Katie, Mostyn a Reece a dymunwn bob lwc iddynt yn Ysgolion Pen-glais a Phenweddig. Ffarweliom a dymunwyd yn dda i Shan Bailey, glanhawraig a gofalwraig yr Ysgol ar ôl dros 14 o flynyddoedd yn gweithio i'r ysgol. Hefyd, trist oedd ffarwelio a Miss Gwenllian, cynorthwywraig weithgar - pob dymuniad da i'r dyfodol.

I ffarwelio â phawb ac i ddathlu llwyddiant pob disgybl dros y flwyddyn, cynhaliwyd Cyngerdd Ffarwelio ar eu cyfer oll ar y diwrnod olaf o'r tymor. Cymerwyd rhan gan bob disgybl, wrth iddynt rannu eu talent wrth berfformio. Hefyd cyflwynwyd tystysgrifau presenoldeb aur, arian ag efydd i'r plant. Llongyfarchiadau i Glyn am ennill tarian Peter Glover am y prosiect gorau o greu model o'r Ysgol ac i Rose am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Da iawn pawb!

**Cylch Meithrin Craig, Y Borth**

Newyddion gwych - bydd Cylch Meithrin Craig, Y Borth sydd ar dir yr Ysgol yn ail agor ar y 10fed o Fedi. Bydd sesiynau o 9yb-11yb o ddydd Llun - Gwener. Mae yna groeso mawr i chi gysylltu gyda Mrs Natalie Edwards yn yr Ysgol, er mwyn cofrestru eich plentyn i'r Feithrinfa.











# Ysgol Pen-llwyn



**Castell Henllys**
Buodd dosbarth 2 i ymweld â Chastell Henllys i ddysgu am y Celtiaid. Ar eu hymweliad cawson gyfle i wneud amryw o weithgareddau gan gynnwys pobi bara, peintio eu hwynebau, plethu pren a chreu tân mewn tŷ crwn. Fe wnaeth y plant fwynhau eu diwrnod yn ôl yn Oes yr Haearn.

**Ynys-hir**
Cyn gwyliau'r haf aeth blwyddyn 3 a 4 i ymweld ag Ynys-hir. Gwelson amryw o anifeiliaid gan gynnwys gwiwer lwyd, penbyliaid, chwilen a chwilen ddŵr. Cawson lawer o gyfleoedd i wneud gweithgareddau gwyddonol yn ystod y dydd.

**Caerdydd**
Cyn y gwyliau aeth blwyddyn 5 a 6 ar drip preswyl i Wersyll yr Urdd yng Nghaerdydd. Cafwyd cyfle i wneud nifer o wahanol weithgareddau megis trip ar gwch, ymweld â'r Senedd, bowlio deg, ymweld â bwytŷ Chineaidd a helfa drysor o amgylch y bae. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw!

**Proms Ceredigion**
Cawsom noson arbennig yng Nghanolfan y Celfyddydau yn gwylio perfformiadau'r Urdd, cerddorfa'r Sir a chôr o blant Blwyddyn 6. Cafodd ein disgyblion brofiad bythgofiadwy yn canu gyda channoedd o blant.

**Mabolgampau**
Braf oedd cael gwahodd Ysgol Penrhyn-coch a'r Cylch Meithrin i gystadlu yn ein mabolgampau ar fore braf o haf. Cawsom fore arbennig gyda chystadlu brwd. Roedd llwyth o dystysgrifau i'w dosbarthu ar ddiwedd y dydd. Melindwr a Seilo oedd y timoedd buddugol! Da iawn i bawb am gystadlu!

**Mabolgampau Cylch**
Buodd disgyblion o'r ysgol yn cystadlu ym mabolgampau cylch Aberystwyth ar gaeau Penweddig. Roedd pawb wedi gwneud yn ardderchog. Enillodd Ana Joyce ras 800m merched blwyddyn 5 ac roedd nifer eraill yn agos iawn i'r tri cyntaf.

**Ymddiriedolaeth Natur**
Daeth aelodau o staff Ymddiriedolaeth Natur Ceredigion i gynnal sgwrs ddifyr am fywyd y môr. Roedd y plant wrth eu boddau i weld darnau o gyrff mamaliaid sy'n byw yn ein moroedd. Diolch yn fawr i'r Cylch Meithrin am drefnu.



**Sioe Capel Bangor**
Ar 4ydd o Awst roedd Sioe Capel Bangor. Roedd hi'n ddiwrnod braf eto a chafodd rhieni, disgyblion a ffrindiau newydd lawer o hwyl ar y stondin ysgol. Buodd llawer o eitemau arbennig yn y babell Celf gyda llawer o ddathlu ar ddiwedd y dydd!



**Ffarwel a chroeso**
Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Mrs Delyth Jones. Diolchwn iddi am ei ymroddiad yn ystod ei chyfnod fel Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Pen-llwyn. Pob dymuniad da i chi Mrs Jones.
Pob hwyl i Megan Lewis, Tia Evans, Evan Jones, Jack Jones a Rhys Barron yn eu hysgolion Uwchradd.
Rydym wedi croesawu 3 disgybl newydd tymor hwn. Croeso i Steffan Williams, Talys Price a Ryan Jones. Maen nhw wedi setlo'n arbennig o dda yn barod. Hyderwn y byddant yn hapus iawn yn ein plith ni.



# Rhagor o wobrau'r Pïod



Dion Davies a Dylan Roberts


Osian Rees Jones a Rhodri Jones



Gethin Williams a Barri Jones




Ann Williams a Wyn Lewis y cadeirydd

# Adolygiad

Llinos Iorwerth Dafis *Llinynnau*
Yr awdur, 2018. 125t £7.50

Ar yr wyneb, dynes oedrannus sydd newydd golli ei gŵr yw Ceridwen Jeremy, prif gymeriad Llinynnau, nofel newydd Llinos Dafis. Mae'r stori'n digwydd dros gyfnod o wythnos dri mis ar ôl marwolaeth ei gŵr ac o'r dechrau'n deg down i sylweddoli bod rhai agweddau o fywyd Ceridwen ychydig yn wahanol i'r cyffredin. Cyflwynir y stori fesul diwrnod, yn gyntaf drwy ddilyn hanes Ceridwen ac yn ail ceir disgrifiad o ddigwyddiadau'r un diwrnod o safbwynt ei merch, Menna. Menna yw Prif Arolygydd Swyddfa Heddlu'r dref ac, o ganlyniad, mae hi'n gweld bywyd o ongl wahanol iawn i'w mam.

Daw i'r amlwg bod Ceridwen wedi dod yn rhan o rwydwaith weithredu leol sy'n ceisio gwneud rhywbeth i helpu pobl llai ffodus. Mae eu dulliau gweithredu yn sicr yn ddiddorol ac yn codi cwestiynau am yr hyn sy'n dderbyniol o ran gweithredu yn erbyn anghyfiawnderau y mae rhywun yn teimlo'n hollol ddiymadferth i wneud dim yn eu cylch. Wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen mae'n rhaid i Ceridwen wynebu sawl sefyllfa ddyrys yn ei bywyd personol ac o safbwynt dyngarol.
Wrth i'r stori ddatblygu down i wybod llawer am gefndir diddorol Ceridwen a rhai cyfrinachau a oedd wedi aros




ynghudd drwy'r blynyddoedd. Mewn ffordd gynnil mae'n dweud llawer am berthynas pobl â'i gilydd ac am amgylchiadau trist nad yw confensiynau cymdeithas yn caniatáu mynd i'r afael â nhw.
Nofel gymharol fer yw *Llinynnau* ond mae'n llawn digwyddiadau wedi eu plethu'n dynn at ei gilydd ac mae'n cadw'r diddordeb tan y funud olaf. Mae'r ddeialog yn naturiol ac mae ynddi ambell sylw bachog am fywyd cyfoes fel y cyfryngau cymdeithasol a sut mae Ceridwen yn delio â hynny. Llinos Dafis ei hun sydd wedi cyhoeddi'r nofel ac mae'r elw o'i gwerthu yn mynd tuag at helpu ffoaduriaid rhyfel. Cofiwch gysylltu â hi ar ei he-bost: llinosdafis@gmail.com os hoffech brynu copi o *Llinynnau* (pris £7.50) – mae'n stori werth chweil a allai ysgogi trafodaeth.
**Brenda Williams**

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Tasg y Tincer



Osian

Croeso 'nôl! Gobeithio eich bod wedi cael haf i'w gofio. Roedd y tywydd ar ddechrau'r gwyliau yn grêt, on'd oedd? A fuoch chi'n teithio tipyn ac yn ymweld â llefydd gwahanol? Mae'n siŵr fod sawl un ohonoch wedi bod i'r Sioe Fawr a'r Steddfod. Gawsoch chi wyliau efo'r teulu mewn gwesty, pabell neu garafán? Falle fod rhai ohonoch wedi mentro dros y dŵr ... braf iawn!

Mae un peth yn sicr – bu sawl un o ddarllenwyr ifanc *Y Tincer* yn lliwio dros yr haf: Anya Evans, Penarth; Ffion Wynne Jones, Dolgellau; Osian Mills, Penrhyn-coch; Einion Tomos Davies, Llanilar; Math Arran Jones, Llanuwchllyn; Owain Hughes, Pontrhydfendigaid.


Dy enw di, Osian, ddaeth o'r het y tro hwn – da iawn ti, a da iawn bawb arall. Roedd eich lluniau'n llawn hwyl a lliw. Daliwch ati!

Does dim modd sôn am yr haf heb sôn am y beiciwr Geraint Thomas a'i gamp enfawr yn ennill y Tour de France. Cymro yn cipio un o brif wobrau'r gamp – hwrê! Fuoch chi'n dilyn y ras ar y teledu? Ro'n i wrth fy modd yn gwylio'r beiciwr yn un haid yn gwibio ar hyd lonydd a ffyrdd Ffrainc, ac roedd y golygfeydd o'r wlad yn dwyn fy ngwynt yn lân! Dwi'n arbennig o hoff o wylio'r daith drwy'r mynyddoedd ...a gweld codwm o dro i dro! Sylwoch chi ar faner y Ddraig Goch yn cael ei chwifio ledled y wlad? Falle fod rhai ohonoch ymhlith y dorf enfawr ddaeth i Fae Caerdydd i groesawu Geraint Thomas ei hun, a dathlu ei lwyddiant. Oeddech chi'n gwisgo crys melyn?! Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r beiciwr wrth iddo – neu iddi – ganolbwyntio a phedlo'n galed er mwyn ennill y ras. Ydech chi'n hoffi mynd ar y beic?

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Hydref 1af. Ta ta tan toc!

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** | **Oed**


SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

**01970 617120**

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



JONATHAN LEWIS

Saer Coed / Adeiladydd

01970 880 652

07773 442 260

BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 411 | MEDI 2018*